Dyma Sir Gâr
darganfodsirgar.com

This is Carmarthenshire
discovercarmarthenshire.com

# Carreg Cennen


Castell Carreg Cennen


Llygad Llwcwr



**Pam Dewis Cerdded?**
Mwynhewch un o ddwy daith gerdded gylchol o amgylch y castell ysblennydd hwn yn Sir Gaerfyrddin, sydd wedi'i leoli'n uchel uwchben Afon Cennen ac sydd bron â bod mil o droedfeddi uwchben lefel y môr ar ochr orllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ychydig iawn o gestyll yn Ewrop sy'n gallu ymffrostio ynghylch lleoliad mwy ysblennydd na hyn. Gofalwch eich bod yn rhentu tortsh i fynd i archwilio ogof y castell.

**Pa mor bell?**
Dwy daith gylchol gydag arwyddion; mae'r daith fer yn 2.7km o hyd (1.6 milltir) ac mae'r daith hir yn 6km o hyd (3.7 milltir).

**Pa mor anodd?**
Mae'r daith gylchol fer yn codi tua 88 metr (288 troedfedd) ar lwybrau da a lonydd bach y wlad. Mae'r daith gylchol hir yn codi tua 200 metr (656 troedfedd) ac yn fwy heriol, gan ddilyn traciau garw a lonydd bach y wlad. Mae'r ddwy daith gerdded yn eithaf serth mewn mannau ond maent yn darparu diddordeb parhaus a golygfeydd godidog o'r castell a'r dirwedd gyfagos.

**Y Man cychwyn -** Caffi/siop y Castell.

**Y Maes Parcio -** Y maes parcio gyferbyn â Fferm Carreg Cennen

**Trafnidiaeth Gyhoeddus -** Llandeilo 5km/3 milltir i ffwrdd


**Lluniaeth -** ✔

1 Saif y castell ar frigiad creigiog sy'n allgraig o galchfaen carbonifferaidd yng nghanol yr Hen Dywodfaen Goch sy'n fwy hynafol. Mae tystiolaeth wedi cael ei chanfod sy'n dangos bod aneddiad yn bodoli ar y safle hwn yn y cyfnod cynhanesyddol. Roedd safle'r castell yn gadarnle yng Nghymru ymhell cyn i Arglwyddi Saesneg adeiladu'r castell presennol yn y 13eg ganrif.

2 Mae'r coetir sy'n cynnwys coed ynn a'r ddraenen wen yn bennaf ar y priddoedd tenau dros galchfaen, yn arwain at goetir derw i lawr y llethr ar yr hen dywodfaen goch.

#DymaSirGar
#ThisisCarmarthenshire

# Mannau o ddiddordeb




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023377

**3** Mae mwy o rywogaethau pryfed yn byw ar goed derw nag unrhyw goeden frodorol arall. Yn ogystal â'r pryfed, mae'r mes yn darparu ffynhonnell fwyd werthfawr ar gyfer amrywiaeth o anifeiliaid. Yn aml roedd gan y cominwyr yr hawl i fesobrau a oedd yn eu galluogi i ollwng eu moch yn rhydd yn y coetir derw i chwilio am fes.

**4** Y naill ochr a'r llall i'r llwybr y mae dau adfail a llwybr cerrig rhyngddynt. Mae'r coetir yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'n lle da i chwilio am adar y goedwig megis ysguthan, delor y cnau, titw tomos las a'r dryw bach.

**5** Mae amrywiaeth gyfoethog o flodau a rhedyn yn y perthi o dan y coed cyll, megis tafod yr hydd, gwibredyn, rhosyn coch gwyllt, fioled, bysedd y cŵn a saets gwyllt.

**6** Edrychwch am y titw penddu, ji-binc, llinos bengoch a dryw bach y coed yn y blanhigfa fach o goed conwydd ac yn hen linellau'r perthi sy'n llawn tyfiant.

**7** Mae hwn yn lle da i graffu ar yr awyr i chwilio am yr aderyn ysglyfaethus mwyaf enwog yng Nghymru, sef y barcud coch. Efallai y byddwch hefyd yn gweld boda. Mae gan y ddau gri uchel sy'n swnio fel mewian ac mae'r adar yn aml yn cael eu clywed cyn iddynt gael eu gweld.

**8** Nid yw Beddau'r Derwyddon, fel y mae'r enw'n ei awgrymu, yn feddau i'r derwyddon, ond mewn gwirionedd twmpathau ydynt wedi'u creu gan ddyn sydd â ffosydd bas o'u hamgylch, sef cwningaroedd canoloesol ar gyfer cenhedlu cwningod ar gyfer bwyd.

**9** Ar ochr y ffordd sy'n mynd i fyny'r rhiw y mae'r garreg rud galed, a thros y wal y mae'r haenau o galchfaen o gyfnod y Carbonifferaidd.

**10** Mae'r tri phant mawr, dwfn yn y tir yn y fan hon wedi'u creu wrth i'r ceudyllau yn y calchfaen o dan y ddaear grebachu.

**11** Roedd yr odyn calchfaen mawr adfeiliedig yn cael ei ddefnyddio i ddarparu calch poeth i wneud sment a gwrtaith i'r caeau. Mae'r chwarel ar gyfer y calchfaen yn union y tu ôl i'r odyn.

**12** Gyferbyn â'r odyn calchfaen y mae'r ogof a elwir yn Llygad Llwchwr. Dyma darddle Afon Llwchwr sy'n cyrraedd y môr 30 cilomedr i ffwrdd, ac mae'n dod yn un o aberoedd mwyaf a phwysicaf Cymru, gan gefnogi miloedd o adar parhaol a rhai mudol.

**13** Gellir gweld heidiau o'r coch dan adain a'r aderyn eira yn y caeau yn yr ardal hon yn y gaeaf.

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council



GD9300